OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1445 (Cy. 153)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Princetown, Bwrdeistref Sirol Caerffili i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Mehefin 2015* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Princetown, Bwrdeistref Sirol Caerffili i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 24 Mehefin 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd ym

Mwrdeistrefi Sirol Caerffili a Blaenau Gwent a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Tredegar i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013(3) drwy hyn wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**9.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Mehefin 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2013/3732 (Cy. 266).

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Tredegar hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Bryn-mawr.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o linell ganol trosbont y B4560 Heol Llangynidr yng Ngarnlydan hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Tredegar hyd at ei chyffordd â Chylchfan Ystad Ddiwydiannol Rasa.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd bresennol a newydd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r de o linell ganol trosbont Intermediate Road, Bryn-mawr hyd at ganolbwynt tanffordd Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n ymestyn o linell ganol tanffordd Cwm Gwybedog, sy'n 330 o fetrau i'r dwyrain o drosbont y B4560 Heol Llangynidr, Garnlydan i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 436 o fetrau, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael newydd wrth Gyffordd Dwyrain Glynebwy.

Y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt pont droed

Bryn Amlwg Close, Princetown hyd at bwynt 380 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o bier dwyreiniol trosbont Merthyr Road (Dwyrain), Tafarnau-bach.

## ATODLEN 4
## Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd bresennol a newydd sy'n ymestyn o ganolbwynt tanffordd Cyffordd Gorllewin Glynebwy (gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael) hyd at bwynt 380 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o bier dwyreiniol trosbont Merthyr Road (Dwyrain), Tafarnau-bach.